GLYNN VIVIAN

Heol Alexandra
Abertawe
SA1 5DZ

+44 (0)1792 516900
glynn.vivian@abertawe.gov.uk
glynnvivian.co.uk

# Come As You Really Are I Abertawe Agored 2025 – Canllawiau Cyflwyno

## – Cyflwyniad

Eleni mae arddangosfa flynyddol Abertawe Agored yn rhan o brosiect ledled y wlad o'r enw *Come As You Really Are* gan Hetain Patel mewn partneriaeth ag Artangel.

Fel yn ystod blynyddoedd blaenorol, mae arddangosfa Abertawe Agored ar agor i ddisgyblaethau o baentiadau, cerfluniau, gwaith cerameg a darluniadau i emwaith, gwaith metel a thecstilau. Eleni ehangir y gwahoddiad i gynnwys sbectrwm ehangach o grefftau a diddordebau a allai gynnwys gwisg-chwarae, casglu, creu canhwyllau, rhwymo llyfrau a llawer mwy. Ni waeth beth sy'n mynd â'ch bryd, rydym am glywed gennych!

I gael cyfle i gyfranogi yn yr arddangosfa, mae Oriel Gelf Glynn Vivian yn gwahodd gwneuthurwyr, crewyr, casglwyr a phobl a chanddynt ddiddordebau penodol i gyflwyno eu gwaith.

**Gall unrhyw un sy'n byw neu'n gweithio yn Ninas a Sir Abertawe mewn cyfeiriad a chanddo gôd post rhwng SA1 ac SA9 gyflwyno gwrthrychau.**

Bydd y ffurflen gais ar gael i'w llenwi ar ein gwefan. Os nad oes gennych fynediad at **gyfrifiadur**, dewch i'r oriel o **7 Ionawr 2025**, a bydd un o gynorthwywyr yr oriel yn gallu'ch helpu.

– Curadu'r Arddangosfa

Caiff yr arddangosfa ei churadu gan yr artist Hetain Patel ar y cyd ag Oriel Gelf Glynn Vivian a bydd mewnbwn gan grwpiau cymuned ddysgu'r oriel. Mae Hetain Patel wedi creu'r prosiect cenedlaethol *Come As You Really Are* gydag Artangel, sy'n cynnwys 13 o gyflwyniadau rhanbarthol ledled Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Mae Hetain Patel yn artist ac yn wneuthurwr ffilmiau sy'n gweithio yn Llundain. Mae ei ffilmiau, ei gerfluniau, ei berfformiadau byw, ei baentiadau a'i ffotograffau wedi cael eu dangos ledled y byd mewn orielau, theatrau ac ar sgriniau cyhoeddus eiconig, gan gynnwys Piccadilly Circus, Llundain a Times Square, Efrog Newydd. Mae ei waith wedi cael ei gyflwyno yn Biennale Fenis, Canolfan Celf Gyfoes Ullens, Beijing ac yn Llundain yn oriel Tate Modern a Sadler's Wells.

Mae gwaith Patel yn defnyddio coreograffi, geiriau a diwylliant poblogaidd i archwilio hunaniaeth a rhyddid, gan ymddangos mewn sawl fformat a chyfrwng er mwyn cyrraedd y gynulleidfa ehangaf. Mae ei waith fideo a pherfformio ar-lein, sy'n cynnwys ei sgwrs TED yn 2013 o'r enw 'Who Am I? Think Again', wedi cael ei wylio fwy na 50 miliwn o weithiau.

## – Dyddiadau allweddol

- Dyddiad cau cyflwyno gwaith: 16:00 ddydd Sadwrn 11 Ionawr 2025
- Cyflwyno darnau o waith: 11:00-16:00 ddydd Iau 9 Ionawr, ddydd Gwener 10 Ionawr neu ddydd Sadwrn 11 Ionawr 2025
- Rhoi gwybod i'r rhai hynny sy'n arddangos eu gwaith drwy e-bost: dydd Gwener 17 Ionawr 2025

- Casglu gwaith na chaiff ei arddangos: 11:00-16:00 ddydd Gwener, 17 Ionawr, ddydd Sadwrn 18 Ionawr neu ddydd Sul 19 Ionawr

- Dyddiadau'r arddangosfa: 15.02.25 – 27.04.25
- Dychwelyd a chasglu gwaith sydd wedi'i arddangos: 11:00–16:00 ddydd Mawrth 29 Ebrill neu ddydd Mercher 30 Ebrill 2025

## – Ceisiadau ac Amodau Cystadlu

1. Gall pob ymgeisydd gyflwyno dau gais (e.e. gwrthrychau, cyfres neu gasgliadau) ar y mwyaf.

2. Rhaid i bob ymgeisydd fod yn 16 oed neu'n hŷn.

3. Rhaid i bob ymgeisydd fyw, astudio neu weithio yn Ninas a Sir Abertawe, mewn cyfeiriad a chanddo gôd post rhwng SA1 ac SA9.

4. Awgrymir cyfraniad o £5 fesul darn o waith. Os yw cyfranogwr yn cyflwyno dau ddarn o waith, awgrymir cyfraniad o £8. Nid yw cyfraniadau'n ad-daladwy.

5. Gofynnir i artistiaid lenwi a llofnodi ffurflen gais wrth gyflwyno gwaith ar-lein.

6. *Ni chaniateir celf berfformio* na gosodiadau* – *gweler y canllawiau ar gyfer diffiniadau ar y diwedd.*

7. Bydd gwaith clyweledol a fideo a ddetholir yn cael eu harddangos ar fonitorau'n unig. Nid oes isafswm hyd, ond yr hyd hwyaf a ganiateir ar gyfer pob cyflwyniad yw 20 munud, gan gynnwys teitlau a rhestr gydnabod. Bydd y terfyn amser hwn yn berthnasol i bob cyflwyniad, boed mewn un dilyniant neu nifer o ddilyniannau.

8. Nid oes isafswm maint ar gyfer gwaith. Yr uchafswm maint ar gyfer darn o waith yw chwe throedfedd (183cm) mewn unrhyw gyfeiriad ar draws dau ddimensiwn a phedair troedfedd (122cm) ar gyfer y trydydd dimensiwn, oherwydd maint y mynedfeydd i adeilad yr oriel. Rhaid i gyfanswm maint arddangos 'cyfres o ddarnau' gydymffurfio â'r rheoliadau hyn.

9. Gan nad oes gennym unrhyw gymorth mecanyddol yn yr oriel, rhaid i bwysau darnau o waith a gyflwynir beidio â bod yn fwy na'r hyn y gellir ei gludo i'r adeilad ar y diwrnod cyflwyno.

10. Dylid cyflwyno pob darn o waith mewn ffrâm neu fel arall yn barod i'w hongian. Nid yw fframiau clipio'n dderbyniol.

11. Rhaid nodi "**TOP**" ar gefn pob darn o waith er mwyn dangos pa ochr sydd ar i fyny.

**12.** Bydd un **LABEL GLYMU**, ar ddarn o linyn, yn hongian dros du blaen y gwaith, a bydd yn rhaid **GLYNU LABEL** ar gefn pob darn o waith, gan nodi enw'r ymgeisydd, enw'r gwaith, y cyfrwng, y dyddiad a'r pris gwerthu (os yw ar werth). **Sicrhewch fod y labeli hyn wedi'u cysylltu'n sownd yn y darnau o waith cyn eu cyflwyno.**

13. Am resymau diogelwch, **RHAID** bod gan bob darn dau ddimensiwn **BLATIAU DRYCH**. Dylid gosod y platiau drych yn union hanner ffordd ar hyd ochrau'r darn o waith. Bydd methu cydymffurfio'n peryglu'r posibilrwydd o gofrestru'r darn o waith. Rhaid bod y gwaith yn gallu cael ei sgriwio i'r wal. **PEIDIWCH Â**chynnwys cortyn i'w hongian.

14. Am resymau iechyd a diogelwch, **RHAID BOD MODD ARDDANGOS POB CERFLUN AR BLINTH.** Os nad yw hyn yn bosib, ni fyddwn yn gallu arddangos y gwaith yn yr arddangosfa.

15. Rydym yn argymell y dylai fod gan bob darn o waith rywbeth i amddiffyn y corneli, a ddylai aros yn gadarn wrth ei drafod. Os yw'r ffrâm yn gain iawn ei natur, e.e. haenau aur neu orffeniadau arbenigol, sicrhewch fod y ffrâm yn cael ei hamddiffyn yn addas, e.e. gyda thiwbiau sbwng, gan na allwn gymryd cyfrifoldeb am unrhyw ddifrod. Rhaid mynd ag unrhyw ddeunydd lapio ychwanegol o'r oriel ar yr adeg gyflwyno. Ni chedwir unrhyw ddeunydd lapio sy'n cael ei adael.

16. **Ni fydd yn bosib arddangos pob darn o waith a gyflwynir.** Arddangosir o leiaf 80 darn o waith.

17. Ni ellir rhyddhau'r gwaith a arddangosir tan ddiwedd yr arddangosfa.

18. Rhaid i'r ymgeisydd gadarnhau nad yw'r darnau o waith a gyflwynir yn torri hawlfraint. Mewn unrhyw achos, bydd yr ymgeisydd yn indemnio Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn erbyn yr holl golledion neu iawndaliadau a allai godi wrth dorri hawlfraint sy'n deillio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o arddangos ei waith yn arddangosfa Abertawe Agored.

## – Cyflwyno Darnau o Waith

- Rhaid cyflwyno darnau o waith yn Oriel Gelf Glynn Vivian, Alexandra Road, Abertawe SA1 5DZ.

- Rhaid cyflwyno'r holl geisiadau'n bersonol. Mae'r artist yn gyfrifol am gyflwyno a chasglu, p'un a yw'r cais yn cael ei ddewis i'w arddangos neu beidio. Os rhoddir darn o waith i rywun arall ei gyflwyno/gasglu, rhaid iddo ddod â llythyr awdurdodi oddi wrth yr artist.

- Rhaid cyflwyno darnau o waith rhwng 11:00 a 16:00 **ddydd Gwener 9, ddydd Sadwrn 10 neu ddydd Sul 11 Ionawr 2025**. Ni dderbynnir gwaith cyn neu ar ôl y dyddiad hwn.

- Hysbysu

- Rhoddir gwybod i gyfranogwyr drwy e-bost a gaiff eu gwrthrychau eu harddangos ai peidio erbyn dydd Gwener 17 Ionawr 2025 fan bellaf.

– Dychwelyd a Chasglu Darnau o Waith

- **RHAID** casglu gwrthrychau nad ydynt yn cael eu harddangos rhwng 11:00 a 16:00 ddydd Gwener 17 Ionawr, ddydd Sadwrn 18 Ionawr neu ddydd Sul 19 Ionawr 2025.

- Rhaid casglu gwrthrychau sy'n cael eu harddangos ar ôl i'r arddangosfa ddod i ben rhwng 11:00 a 16:00 **ddydd Mawrth 29 Ebrill neu ddydd Mercher 30 Ebrill 2025.**

- Codir tâl o £1 y dydd am unrhyw waith na chaiff ei gasglu yn ystod y cyfnodau casglu a nodwyd, hyd at uchafswm o £100 fesul darn o waith. Sylwer mai tâl am storio yw hwn ac ni ellir gwneud unrhyw eithriadau.

- Mae'r oriel yn cadw'r hawl i gael gwared ar unrhyw waith na chaiff ei gasglu erbyn dydd Sul 27 Gorffennaf 2025.

– Gwerthu Darnau o Waith

- Gall artistiaid ddewis cynnig eu gwaith i'w werthu. Bydd yr oriel yn gyfrifol am werthu'r holl ddarnau o waith yn yr arddangosfa ar ran yr artistiaid. Cymerir

comisiwn gwerth 30% (gan gynnwys TAW) ar werthiannau. Ni ellir rhyddhau'r darnau o waith tan ddiwedd yr arddangosfa.

| | |
|---|---|
| Er enghraifft, pris gwerthu | £100.00 |
| Comisiwn gwerth 30% (gan gynnwys TAW) | £30.00 |
| Y swm sy'n daladwy i'r artist | £70.00 |

- Bydd taliadau am ddarnau o waith a werthir yn cael eu prosesu ar ddiwedd yr arddangosfa.

- Sylwer bod yr elw o werthu'r darn o waith yn cyfrannu at sicrhau y cynhelir arddangosfa Abertawe Agored bob blwyddyn. Drwy brynu celfwaith drwy'r oriel, rydych yn cyfrannu'n uniongyrchol at yr arddangosfa hon. Mae'r oriel yn ddiolchgar am eich cefnogaeth.

## – Yswiriant

- Y perchennog sy'n gyfrifol am ddarnau o waith a gyflwynir. Caiff y darnau o waith eu cadw'n ddiogel a'u trafod â gofal proffesiynol priodol, ond nid yw'r oriel yn derbyn atebolrwydd am golledion neu ddifrod, beth bynnag yw'r amgylchiadau, yn ystod y cyfnod storio a dethol.

- Cyfrifoldeb yr artist yw trefnu'i yswiriant ei hun am y gwaith. Bydd darnau o waith sy'n cael eu dethol ar gyfer yr arddangosfa'n cael eu hyswirio gan yr oriel o'r amser dethol, sef dydd Iau, 9 Ionawr 2025, tan yr amser casglu olaf, sef 16:30, **ddydd Mercher 30 Ebrill 2025**.

## – Cyhoeddusrwydd

Mae Oriel Gelf Glynn Vivian yn cadw'r hawl i dynnu lluniau at ddibenion addysg, marchnata a chyhoeddusrwydd.

Bydd yr oriel yn hyrwyddo'r arddangosfa ar draws amrywiaeth eang o gyfryngau, gan gynnwys ein gwefan, ein cyfryngau cymdeithasol, ein canllawiau ar Bloomberg Connects, ein pamffledi tymhorol a deunydd cyhoeddusrwydd ar gyfer yr arddangosfa (posteri/taflenni/gwahoddiadau/e-byst).

Bydd yr artist yn cadw'r hawlfraint; fodd bynnag, drwy lofnodi'r ffurflen gais, mae artistiaid yn cytuno y gellir defnyddio delweddau o'u gwaith at ddibenion addysg, y wasg, marchnata a hyrwyddo.

## – Canllawiau ar gyfer Diffiniadau* – ar gyfer gwaith y tu allan i gwmpas yr arddangosfa

- Mae celf berfformio'n cynnwys ffurfiau celf byw a gweithgareddau celf a gyflwynir gerbron cynulleidfa fyw a allai gynnwys elfennau o gerddoriaeth, dawns, barddoniaeth a theatr, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain.
- Nid yw'n rhestr gynhwysfawr ond mae celf osod yn cynnwys naill ai hongian lluniau neu drefnu gwrthrychau mewn arddangosfa, neu waith celf penodol i safle, sy'n cynnwys profiad tri dimensiwn o gael eich amgylchynu gan waith celf.

Ar gyfer pob ymholiad arall a gwybodaeth ddefnyddiol, cymerwch gip ar y dudalen Cwestiynau Cyffredin ar wefan yr oriel.

Ar gyfer ymholiadau cyffredinol, cysylltwch ag:
Andrea Powell, Cynorthwyydd Arddangosfeydd drwy e-bostio
Andrea.powell@abertawe.gov.uk neu drwy'r post yn Oriel Gelf Glynn Vivian,
Alexandra Road, Abertawe SA1 5DZ.
**Sylwer bod yn rhaid cyflwyno pob ymholiad a gohebiaeth yn ysgrifenedig.**

## – Ffurflen Gais

Gofynnir i chi lenwi ffurflen gais ar-lein. Bydd y ddolen ar gael ar wefan Oriel Gelf Glynn Vivian erbyn mis Rhagfyr 2024.

Sicrhewch eich bod yn darparu'r canlynol:

- Manylion cyswllt (enw, cyfeiriad, côd post, e-bost, rhif ffôn)
- Prawf o gôd post
- Teitl y gwaith a disgrifiad ohono
- Dyddiad y gwaith
- Cyfrwng
- Maint y gwaith
- Pris gwerthu (os ydyw ar werth)
- Cyfraniad (os ydych yn dewis gwneud cyfraniad)

– Rhestr Wirio Derfynol

| | |
|---|---|
| Darllenwch y daflen wybodaeth atodedig am arddangosfa Abertawe Agored (gan gynnwys yr holl nodiadau ac amodau cystadlu). | |
| Cyn i chi greu darn o waith, sicrhewch y bydd yn cydymffurfio â'r nodiadau a'r amodau cystadlu. | |
| Gwiriwch y nodiadau a'r amodau cystadlu i sicrhau eich bod wedi paratoi eich gwaith yn gywir. | |
| Llenwch y ffurflen benderfynu ar-lein, sydd ar gael yma: https://thehobbycave.org.uk/ | |
| Dewch â'r darn o waith i'r oriel ar y dyddiadau cyflwyno: 11:00-16:00 **ddydd Iau 9 Ionawr, ddydd Gwener 10 Ionawr neu ddydd Sadwrn 11 Ionawr 2025** | |

Rhaid defnyddio'r rhestr wirio hon ynghyd â'r nodiadau a'r amodau cystadlu a geir yn y daflen Canllawiau Cyflwyno Abertawe Agored hon.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

FRIENDS OF THE GLYNN VIVIAN

Cyngor Abertawe
Swansea Council